

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care Chepstow,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan

Dyddiad arolygu: 18 Gorffennaf
2018

Dyddiad cyhoeddi: 19 Hydref
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	18
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	30
4.	Beth nesaf?	35
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	36
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	37
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	39

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care Chepstow, Boscobel House, Cas-gwent, Sir Fynwy, NP16 5LN, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 18 Gorffennaf 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Bupa Dental Care Chepstow yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol. Gwnaethom nodi bod y practis yn lân ac yn daclus, a gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod offer yn ddiogel, mewn cyflwr priodol ac yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd arweinyddiaeth dda i'w gweld ac roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Roedd ganddo ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod cleifion o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Reoliadau na'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth berthnasol i gleifion i'w galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth ac roeddent yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd arweinyddiaeth dda i'w gweld ac mae'r practis yn darparu gwasanaeth sydd â systemau effeithiol ar waith i helpu i reoli'r practis yn gyffredinol
- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau; roeddent yn cyflawni eu dyletswyddau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol i gleifion
- Roedd y practis yn cynnwys offer priodol ac roedd yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer yn ddiogel

- Roedd system dda ar waith o ran llywodraethu ac archwilio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac roedd cyfleoedd hyfforddiant da ar gael iddynt
- Roedd darpariaethau yn y practis ac ar y wefan i gleifion roi adborth.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â chanllawiau llawn wrth lanhau, sterileiddio a storio offerynnau deintyddol
- Diweddarau'r wybodaeth i gleifion ar y wefan a rhai polisiâu fel y bo'n briodol, gan ddefnyddio NHS Wales/GIG Cymru, Welsh Health Technical Memorandum (WHTM) 01-05¹ a HIW
- Darparu taflenni gwybodaeth i gleifion ar hybu iechyd a hylendid y geg a sicrhau bod opsiynau triniaeth yn parhau i fod yn gywir
- Sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu bob amser.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiadau A ac C. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os na fydd yn gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

¹ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadhalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bupa Dental Care Chepstow yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cas-gwent yn Sir Fynwy. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, tri hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, dau dderbynydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

Mae'r practis yn rhan o gadwyn genedlaethol Bupa Dental Care a'r perchennog blaenorol oedd Oasis Dental Care.

Roedd y practis yn cynnig gwasanaeth llonyddu ymwybodol hyd at 2017 ond nid yw'n cynnig y gwasanaeth hwn mwyach. Mae'r practis hefyd yn cynnig mewnbliadau deintyddol ac orthodonteg.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn ymrwymedig i roi profiadau cadarnhaol i gleifion, ac roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth yn ardderchog.

Roedd preifatrwydd ac urddas yn cael eu diogelu yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, argymhellwn fod y practis yn trefnu bod sgrin breifatrwydd hyd llawn yn cael ei gosod ar y gwydr ar ddrysau allanol y ddwy ddeintyddfa ar y llawr daear a bod sgrin breifatrwydd yn cael ei gosod rhwng y brif ystafell stoc a'r ardal driniaeth. Bydd hyn yn atal unrhyw un sy'n mynd heibio rhag gweld cleifion yn cael triniaeth.

Roedd ffeil wybodaeth dda i gleifion ar gael yn yr ardal aros ar y llawr daear a oedd yn cynnwys y triniaethau a ddarperir, rhestrau prisiau a'r polisi cwynion. Argymhellwn fod y ffeil wybodaeth hon yn cael ei gosod yn yr ardal aros ar y llawr cyntaf hefyd, a bod amrywiaeth o daflenni sy'n hybu iechyd a hylendid y geg yn cael eu gosod yn y ddwy ardal aros. Bydd hyn yn sicrhau y gall pob claf sy'n ymweld â'r practis gael gwybodaeth berthnasol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system electronig gorfforaethol ar waith i gofnodi cwynion ffurfiol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth bod unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u gwneud. Dylai cwynion neu bryderon llafar anffurfiol gael eu cofnodi hefyd. Felly, cynghorwyd y practis i ddatblygu proses ffurfiol er mwyn cofnodi'r wybodaeth hon.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur; y mwyafrif gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers dwy flynedd neu fwy.

Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Mae'r staff mor gymwynasgar a chwrtais"

"Rwy' bob amser yn cael gwasanaeth da gan y tîm i gyd"

"Roedd y gofal a gefais i'n ddiweddar yn benigamp. Rwy'n ddiolchgar iawn"

Cadw'n iach

Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom arwyddion dim smygu yn yr adeilad ac roedd taflenni ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am roi'r gorau i smygu. Roedd posteri gwybodaeth am ddeiet a hybu iechyd y geg i'w gweld ar y waliau yn y deintyddfeydd hefyd. Fodd bynnag, byddai'n amhosibl i gleifion ddarllen y wybodaeth hon o'r cadeiriau deintyddol.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nifer fach iawn o daflenni hybu iechyd a hylendid y geg a oedd ar gael.

Roedd y practis yn cynnig detholiad o gynhyrchion deintyddol i gleifion eu prynu, er enghraifft, brwsys dannedd traddodiadol a thrydan, pastiau dannedd a chegolchion, yn y dderbynfa ar y llawr daear.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn darparu amrywiaeth o daflenni hybu iechyd a hylendid y geg yn y ddwy ardal aros, fel y gall cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw.

Gofal gydag urddas

Roedd y staff yn ymddangos yn dîm bach cyfeillgar a fe'u gwelsom yn siarad â chleifion mewn ffordd barchus a phroffesiynol ac yn rhyngweithio â nhw mewn ffordd gyfeillgar a chwrtais.

Gwelsom fod y drysau i'r deintyddfeydd (lle roedd cleifion wedi cael gofal yn ystod yr arolygiad) yn cael eu cadw ar gau er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas.

Ar y llawr daear, roedd derbynfa ac ardal aros cynllun agored. Os oedd angen siarad â chlaf yn breifat y tu allan i'r deintyddfeydd, gallai'r staff gynnal y gysuriau hynny yn swyddfa rheolwr y practis, y tu ôl i'r dderbynfa.

Yn ddiethriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis.

Er bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaethom nodi y gallai pobl sy'n mynd heibio ac aelodau eraill o staff edrych i mewn i'r deintyddfeydd o'r maes parcio cefn a'r ardal eistedd awyr agored i staff, islaw ac uwchlaw'r paneli gwydr barugog ar y drysau allanol.

Argymhellwn fod y practis yn gosod sgrin breifatrwydd farugog ar y drysau gwydr hyd llawn, er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion sy'n eistedd yn y cadeiriau deintyddol sy'n wynebu tuag allan. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd inni eu bod yn aros i'r sgriniau hyn gael eu gosod, ond nad oeddent wedi cael dyddiad eto.

Er mwyn mynd i'r brif ystafell stoc, rhaid mynd drwy un o'r deintyddfeydd ar y llawr daear. Roedd wal isel yn gwahanu'r ystafell stoc ond roedd hi'n bosibl i staff eraill weld y claf a thynnu sylw'r deintydd o bosibl yn ystod y driniaeth.

Argymhellwn fod sgrin hyd llawn yn cael ei gosod rhwng yr ystafell stoc a'r ardal driniaeth.

Gwelsom fod y practis yn arddangos poster Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol² ar gyfer y Tîm Deintyddol³, sy'n disgrifio'r naw egwyddor y dylai cleifion ddisgwyl eu cael gan eu tîm gofal deintyddol pan fyddant yn cael gofal a thriniaeth.

² Y corff rheoliadol ar gyfer gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol

³ <https://standards.gdc-uk.org/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn:

Gosod sgrin breifatrwydd farugog ar holl baneli gwydr y drysau hyd llawn yn y ddwy ddeintyddfa ar y llawr daear.

Gosod sgrin breifatrwydd hyd llawn yn y ddeintyddfa sy'n arwain i'r ystafell stoc.

Gwybodaeth i gleifion

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat ac ar ran y GIG. Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG wedi'i harddangos yn glir yn yr ardal aros ac wedi'i chynnwys yn y ffeil wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Lle bo hynny'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost eu triniaeth cyn iddynt gael y driniaeth. Hefyd, dywedodd y cleifion fod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau triniaeth sydd ar gael a'u bod yn cael eu cynnwys, i'r graddau yr hoffent gael eu cynnwys, mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth.

Gwelsom fod taflen wybodaeth y practis yn cynnwys gwybodaeth am oriau agor y practis, y triniaethau sydd ar gael a gwybodaeth berthnasol arall i gleifion. Fodd bynnag, mae angen cynnwys rhagor o wybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Argymhellwn fod enwau a manylion y deintyddion a'r gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff, yn cael eu cynnwys yn y daflen wybodaeth.

Gwelsom fod arwyddion y practis yn ddigonol ar y cyfan, ond nid oedd arwydd ar ddrws yr ystafell ddadhalogi i hysbysu ymwelwyr bod mynediad wedi'i gyfyngu i staff yn unig. Mae hyn yn peri pryder gan nad yw'r ystafell ddadhalogi yn cael ei chloi ac mae wedi'i lleoli wrth ymyl ystafell driniaeth arall, sy'n cael ei rhentu i weithwyr iechyd proffesiynol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'r practis deintyddol. Nid yw'r drws yn cael ei oruchwylio chwaith.

Argymhellwn fod arwydd yn cael ei osod ar ddrws yr ystafell ddadhalogi sy'n dweud Dim Mynediad / Staff yn Unig, er enghraifft, a bod clo digidol yn cael ei osod.

Gwelsom fod manylion y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis ac oriau agor y practis wedi'u harddangos y tu allan, ac eithrio manylion un deintydd. Argymhellwn fod enwau pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn cael eu harddangos y tu allan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn:

Cynnwys rhagor o wybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis am enwau pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff

Gosod arwydd Staff yn Unig a chlo digidol ar ddrws yr ystafell ddadhalogi er mwyn sicrhau diogelwch cleifion ac ymwelwyr.

Arddangos enw pob deintydd sy'n gweithio yn y practis y tu allan.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn siarad Saesneg a'u bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Er na allai'r staff yn y practis siarad Cymraeg, gwnaethant ddweud wrthym, pe bai cleifion yn dymuno siarad mewn iaith arall, y gallent wneud hynny gyda nifer o ddeintyddion gwahanol a oedd yn amlieithog, neu y gallent gysylltu â llinell iaith y Bwrdd Iechyd er mwyn cael cymorth cyfathrebu. Hefyd, pe bai cleifion yn gofyn am wybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg neu iaith arall, dywedodd y staff wrthym y gallent drefnu hyn drwy ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu.

Roedd y practis yn hysbysebu yn y brif dderbynfa, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar y wefan bod gwasanaeth llonyddu ar gael i gleifion nerfus. Fodd bynnag, ni ddarperir y gwasanaeth hwn mwyach.

Argymhellwn fod pob deunydd sy'n rhoi'r wybodaeth hon i gleifion yn cael ei dynnu er mwyn osgoi camarwain cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod pob deunydd sy'n rhoi gwybodaeth am yr opsiwn i lonyddu cleifion yn cael ei ddiwygio yn ardal aros y practis, y taflenni gwybodaeth i gleifion a'r wefan, er mwyn osgoi camarwain cleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio darparu gofal deintyddol mewn ffordd amserol a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Rhoddodd un claf sylw cadarnhaol am ofal amserol;

"Yn fy marn i, mae'r tîm cyfan yn y practis hwn yn effeithlon iawn heb wneud i chi frysio. Maen nhw bob amser yn gallu fy ngweld y tu allan i'm oriau gwaith".

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif y gwasanaeth gofal deintyddol y tu allan i oriau ar gael i gleifion. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos ger prif fynedfa'r practis, roedd i'w glywed ar neges y peiriant ateb, ac roedd i'w weld ar y wefan ac yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cofnodion o opsiynau a chynlluniau triniaeth yn cael eu cadw. Roedd y practis yn gofyn am gydsyniad pob claf i driniaeth hefyd.

Yn ôl y cofnodion, roedd hanes meddygol pob claf yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ystod pob ymweliad. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Mae'r practis mewn tŷ wedi'i drosi sydd â maes parcio yn y cefn. Roedd dwy ddeintyddfa, y brif dderbynfa gydag ardal aros a thoiled i gleifion ar y llawr daear, ac roedd dwy ddeintyddfa, ystafell hylenydd, ystafell sganio tomograffi

gyfrifiadurol⁴ (CT) ac ardal aros ar y llawr cyntaf, y gellid mynd iddynt drwy ddringo'r grisiau.

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd rheolwr y practis a staff y dderbynfa wrthym mai i'r staff yn unig roedd y maes parcio. Fodd bynnag, mae'r wefan yn awgrymu bod gan y practis faes parcio ar y safle y gall cleifion ei ddefnyddio am ddim. Argymhellwn fod y cyngor hwn ar y wefan yn cael ei ddiwygio os yw'r maes parcio at ddefnydd y staff yn unig neu, os yn berthnasol, argymhellwn fod staff y practis yn hysbysu cleifion am y maes parcio ac yn caniatáu iddynt ei ddefnyddio a bod arwydd priodol yn cael ei osod yn y naill achos neu'r llall.

Gwelsom fod mynediad i'r practis yn dda. Roedd y brif fynedfa yn arwain at y dderbynfa a'r ardal aros ar y llawr daear. Roedd un gris bach yn mynd i lawr i'r toiled ac roedd gan y practis ramp symudol er mwyn rhoi mynediad i bobl mewn cadair olwyn. Fodd bynnag, roedd ciwbicl y toiled yn rhy fach i gadair olwyn.

Dywedodd y staff wrthym eu bod bob amser yn hysbysu darpar gleifion newydd y bydd hi'n anodd iddynt ddefnyddio'r holl gyfleusterau os ydynt yn ddibynnol ar gadair olwyn. Hefyd, pe bai claf mewn cadair olwyn yn gofyn am bractis lle gallai ddefnyddio'r holl gyfleusterau, dywedodd y staff y gallent ei gyfeirio at bractis cyfagos.

Roedd dwy ddeintyddfa ar y llawr daear y gallai pobl mewn cadair olwyn neu bobl ag anawsterau symudedd gael mynediad iddynt.

Roedd gan y practis bolisiau cyfredol ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Chyfrinachedd. Hefyd, gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

⁴ Mae sgan tomograffi gyfrifiadurol yn defnyddio cyfuniadau cyfrifiadurol o fesuriadau pelydr-x niferus a gymerir o onglau gwahanol er mwyn creu delweddau croestoriadol o ardaloedd penodol o wrthrych sy'n cael ei sganio, er mwyn galluogi'r defnyddiwr i weld y tu mewn i'r gwrthrych heb dorri i mewn iddo.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod cyngor parcio'r practis i gleifion yn cael ei ddiwygio ar wefan y practis os yw'r maes parcio at ddefnydd staff yn unig neu fod staff y practis yn hysbysu cleifion am y maes parcio ac yn caniatáu iddynt ei ddefnyddio.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat am sut i godi pryder wedi'i harddangos yn yr ardal aros ar y llawr daear. Roedd yr amserlen ymateb a nodwyd yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru⁵. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw gyfeiriad yn y practis at broses Gweithio i Wella.

Argymhellwn y dylai gwybodaeth gael ei harddangos yn y ddwy ardal aros ac yn y ffeiliau gwybodaeth i gleifion am broses Gweithio i Wella ac y dylid darparu taflen Gweithio i Wella GIG Cymru i gleifion yn ôl yr angen. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd llafar inni y byddai'n gwneud hynny.

Er nad oedd y practis wedi cael unrhyw gwynion, gwelsom fod proses electronig briodol ar waith i gofnodi unrhyw bryderon ffurfiol a mynd i'r afael â nhw, pe baent yn codi. Fodd bynnag, nid oedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi'n ffurfiol a dywedodd rheolwr y practis wrthym ei bod yn nodi'r rhain yn ei dyddiadur gwaith.

Argymhellwn fod y practis yn cadw cofnod canolog o bob cwyn lafar er mwyn sicrhau y gall aelodau eraill o staff eu gweld fel y bo'n briodol. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd llafar inni y byddai'n gwneud hynny.

Gwelsom fod gan y practis broses ar waith i gael adborth gan gleifion am y gwasanaethau a'r gofal a ddarperir drwy holiaduron i gleifion a blychau awgrymiadau yn y ddwy ardal aros. Gwelsom fod y practis yn ystyried y wybodaeth a ddaw i law ac yn gweithredu ar rai o awgrymiadau'r cleifion. Er

⁵ 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

enghraifft, gofynnodd rhai cleifion am gylchgronau newydd i'w darllen wrth aros ar ôl i'r hen gylchgronau gael eu symud pan gymerodd Bupa gyfrifoldeb am y practis ym mis Ebrill 2017. Roedd cylchgronau bellach ar gael i gleifion, fel yr awgrymwyd.

Mae'r practis hefyd yn darparu adborth cleifion ar ei wefan a gall cleifion wneud awgrymiadau'n electronig drwy'r wefan hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn cadw cofnod canolog, ffurfiol o bob cwyn lafar ac anffurfiol er mwyn sicrhau y gall aelodau eraill o staff eu gweld fel y bo'n briodol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith yn y practis i sicrhau diogelwch a lles staff, cleifion ac ymwelwyr. Hefyd, roedd y staff yn gwneud ymdrech i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i'r cleifion.

Gwelsom fod proses drylwyr ar waith i lanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol ond roedd angen gwella'r ffordd yr oedd offerynnau'n cael eu hoeri yn ystod y broses ddadhalogi a'r ffordd yr oedd offerynnau'n cael eu paratoi yn union cyn mewnbaniadau deintyddol⁶.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael i ddangos bod offer pelydr-X, y sganiwr CT ac offer dadhalogi yn cael eu defnyddio a'u cynnal a'u cadw'n ddiogel.

Roedd rhaglen archwilio ac asesu risg gadarn ar waith.

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yng nghofnodion y cleifion yn cael ei chofnodi'n gyson ac yn briodol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

⁶ Mewnbaniad deintyddol yw gwreiddyn dant artiffisial wedi'i wneud o ditaniwm, sy'n cael ei osod yn asgwrn y gê, islaw'r deintgig, er mwyn dal dant newydd neu bont yn y fan honno.

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis yn ogystal â chleifion ac ymwelwyr eraill.

Ar y cyfan, roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Wrth fynd o gwmpas yr adeilad, gwelsom fod pob ardal yn lân, yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon a allai beri i rywun gwympto, llithro neu faglu.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lanweithdra'r practis deintyddol a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu barn nhw.

Roedd un toiled ar y llawr daear at ddefnydd y cleifion ac un toiled at ddefnydd y staff, yng nghefn yr ystafell staff ar y llawr cyntaf. Roedd arwyddion clir i'r cyfleusterau i gyd ac roeddent yn ymddangos yn daclus ac yn lân iawn. Roedd bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn y toiled i gleifion ar y llawr daear ond nid oedd bin o'r fath yn y toiled i staff ar y llawr cyntaf.

Mae Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992⁷ yn argymhell y dylai pob busnes sicrhau bod pob toiled i ferched yn cynnwys dull addas i waredu deunyddiau misglwyf. Felly, argymhellwn fod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei osod yn y toiled i staff ar y llawr cyntaf. Gwnaethom godi hyn â rheolwr y practis yn ystod ein harolygiad a rhoddodd sicrwydd llafar inni y byddai'n trefnu hyn gynted â phosibl.

Roedd pob bin gwastraff clinigol yn y deintyddfeydd yn cael ei storio'n ddiogel ac roedd y biniau gwastraff clinigol allanol yn cael eu cadw dan glo yng nghefn y practis. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, gwelsom fag gwastraff clinigol oren ar y llawr mewn un ddeintyddfa. Codwyd hyn gyda'r brif nyrs ddeintyddol a rheolwr y practis ac ymchwiliwyd i'r mater ar unwaith. Dywedwyd wrthym fod nyrs ddeintyddol sy'n gweithio i asiantaeth wedi gadael y bag yno am nad oedd yn siŵr o leoliad y biniau gwastraff clinigol allanol. Rhoddwyd y bag gwastraff yn y sgip gwastraff clinigol allanol ar unwaith ar ôl inni dynnu sylw at y mater.

⁷ Mae Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 yn Offeryn Statudol yn y Deyrnas Unedig sy'n nodi gofynion cyffredinol o ran safonau llety ar gyfer bron pob gweithle

Gwnaethom argymhell bod y practis yn dangos yr adeilad cyfan, y tu mewn a'r tu allan, i unrhyw staff dros dro ac yn tynnu eu sylw at y polisi rheoli gwastraff pan fyddant yn cyrraedd y practis.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy (PAT) yn cael eu cynnal yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod offer yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad ac roeddent yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Gwelsom hefyd fod y practis wedi cynnal asesiad risg tân yn ystod y 12 mis diwethaf a dywedwyd wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal bob wythnos. Roedd arwyddion yr allanfeydd argyfwng i'w gweld yn glir ac roedd y poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos. Roedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant corfforaethol Bupa ar ddiogelwch tân, bod yn wardeiniaid tân a defnyddio diffoddwyr tân yn ddiweddar.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002⁸, rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod yr holl gemegion yn cael eu storio'n ddiogel ac nad oedd unrhyw gemegion yn cael eu gadael mewn ardaloedd cyhoeddus. Roedd ffeil gynhwysfawr, ardderchog ar gael a oedd yn cynnwys yr holl daflenni data perthnasol a chanllawiau lleol a chorfforaethol ar gyfer rheoli COSHH ac roedd polisi COSHH ac asesiadau risg perthnasol ar gael ac wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Roedd gan y practis bolisi a phroses ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd contractau ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod y practis yn didoli'r holl wastraff a'i osod yn y bagiau / cynwysyddion priodol yn unol â'r dull gwaredu cywir ac yn ei storio'n ddiogel nes iddo gael ei gasglu (heblaw am un achos y cyfeirir ato uchod).

Wrth arolygu'r deintyddfeydd, gwelsom fod pob blwch offer miniog wedi'i baratoi'n gywir a bod labeli priodol wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd y

⁸ Mae Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, fel y'u diwygiwyd, yn Offeryn Statudol yn y Deyrnas Unedig sy'n nodi'r gofynion cyffredinol i gyflogwyr ddiogelu cyflogeion a phobl eraill rhag peryglon sylweddau a ddefnyddir yn y gwaith drwy gynnal asesiadau risg, rheoli amlygiad, goruchwyllo iechyd a chynllunio ar gyfer digwyddiadau.

blychau hyn wedi'u gosod yn sownd wrth wal neu mewn crud neu stand diogel, a oedd yn golygu y gallai'r offer miniog syrthio allan ac anafu rhywun o bosibl.

Argymhellwn fod pob bin offer miniog yn cael ei osod yn sownd wrth wal neu'i storio'n ddiogel mewn crud neu stand.

Roedd gan y practis lyfr i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau neu anafiadau ac roedd hefyd yn ymwybodol o'i ofynion o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) (2013).⁹

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i reoli iechyd a diogelwch yn y practis, gan gynnwys trefniadau wrth gefn mewn argyfwng. Roedd y practis wedi cynnal asesiad risg amgylcheddol cyffredinol yn ystod y 12 mis diwethaf hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Gwnaethom argymhell bod:

Y practis yn dangos yr adeilad cyfan, y tu mewn a'r tu allan, i unrhyw staff dros dro ac yn tynnu eu sylw at y polisi rheoli gwastraff pan fyddant yn cyrraedd y practis

Bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei osod yn y toiled i staff ar y llawr cyntaf

Pob bin offer miniog yn cael ei osod yn sownd wrth wal neu'i storio'n ddiogel mewn crud neu stand.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dadhalogi) offerynnau deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, yn cynnwys

⁹ MAe RIDDOR yn gosod dyletswyddau ar gyflogwyr, pobl hunangyflogedig a phobl sy'n rheoli safleoedd gwaith (y Person â Chyfrifoldeb) i roi gwybod am ddamweiniau difrifol yn y gweithle, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol neu rai y bu ond y dim iddynt ddigwydd.

offer priodol ac yn rhydd rhag rhwystrau, ac roedd cyfarpar diogelu personol perthnasol ar gael i'r staff.

Dangosodd y staff y broses ddadhalogi i ni'n dda, a gwelsom fod y gweithdrefnau a ddilynir i lanhau a sterileiddio offerynnau yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau diweddaraf. Fodd bynnag, gwelsom arfer anfoddhaol tua diwedd y broses wrth storio offerynnau ar ôl eu tynnu o'r awtoclaf i'w hoeri. Rhoddwyd yr offerynnau ar yr arwyneb gwaith glân ac fe'u gorchuddiwyd â lliain untro nad oedd wedi'i sterileiddio. Dywedwyd wrthym hefyd mai dyma oedd y drefn ar gyfer yr holl offerynnau a gaiff eu sterileiddio, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir ar gyfer mewnbaniadau.

Gan nad yw'r practis yn defnyddio awtoclaf gwactod i sterileiddio, argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod yr offerynnau sydd wedi'u sterileiddio'n cael eu gorchuddio â lliain sterilaid neu'n defnyddio dull priodol arall i gadw'r offerynnau'n sterilaid, cyn eu gosod yn y bag sterilaid. O ran offerynnau a ddefnyddir ar gyfer mewnbaniadau, gan nad oes awtoclaf gwactod ar gael, mae arfer gorau'n awgrymu y dylai'r offerynnau gael eu sterileiddio eto yn union cyn iddynt gael eu defnyddio a'u symud yn ddiogel, er mwyn osgoi croes-halogi, i'r ddeintyddfa cyn gynted â phosibl ar ôl y broses.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y practis wedi cynnal archwiliadau o reoli heintiau yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi defnyddio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, sy'n gosod y safon ar gyfer arferion dadhalogi a rheoli heintiau mewn deintyddfeydd yng Nghymru.

Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol ar waith i leihau'r risg o groes-heintio, ar wahân i'r rhai a nodir uchod, er mwyn amddiffyn cleifion a staff. Gwnaethom nodi hefyd fod offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u symud yn unol â'r polisi dadhalogi cyfredol yn dilyn y broses sterileiddio.

Nodwyd nad oedd tystiolaeth i ddangos bod pedwar aelod o staff clinigol wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau perthnasol, felly argymhellwn fod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant rheoli heintiau cyn gynted â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol:

Bod offerynnau sydd wedi'u sterileiddio'n cael eu gorchuddio â lliain sterilaid neu fod dull priodol arall yn cael ei ddefnyddio (i gadw offerynnau'n sterilaid), yn ystod y cam oeri

Gan nad oes awtoclaf gwactod ar gael, dylai'r offerynnau a ddefnyddir ar gyfer

mewnblaniadau gael eu sterileiddio eto yn union cyn iddynt gael eu defnyddio

Dylai pob aelod o staff gwblhau hyfforddiant rheoli heintiau cyn gynted â phosibl.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis y cyffuriau argyfwng a'r offer dadebru brys priodol, fel yr argymhellir yng nghanllawiau Cyngor Dadebru y DU¹⁰. Roedd y rhain i gyd ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng, er enghraifft, claf yn llewygu, ac roedd modd cael gafael arnynt yn hawdd. Roedd y cyffuriau a'r offer yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd poster yn dangos y weithdrefn ddadebru gywir wedi'i arddangos ym mhob deintyddfa a'r ddwy ardal aros hefyd.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig ond roedd angen i'r ddau ohonynt ddiweddarau eu hyfforddiant. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd llafar inni y byddai'r ddau yn cael hyfforddiant gloywi cyn gynted â phosibl.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol. Gwnaethom argymhell y dylai gael ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol yn ystod argyfwng.

Pe bai adwaith niweidiol i gyffuriau, nid oedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol o'r fath ac argymhellwn y dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw adweithiau negyddol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA¹¹.

¹⁰ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

¹¹ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y canlynol:

Bod y polisi ar reoli argyfyngau meddygol yn cael ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol y practis yn ystod argyfwng sy'n ymwneud â chlaf.

Bod y ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig yn cael hyfforddiant gloywi

Dylai rheolwr y practis godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff o'r angen i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisiau priodol ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg, a oedd hefyd yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd pob aelod o staff ond dau wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes amddiffyn oedolion ac roedd pob aelod o staff ond un wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ym maes amddiffyn plant.

Argymhellwn fod holl staff y practis yn cael hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac oedolion cyn gynted â phosibl.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon ynghylch diogelu, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hynny yn y practis. Roedd y broses i'w dilyn ar gyfer pryderon diogelu i'w gweld ym mhob deintyddfa ac yn y ddwy ardal aros.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn cael eu recriwtio a'u sefydlu'n ddiogel, gan gynnwys pob gwiriad cyn cyflogi, er mwyn helpu i ddiogelu staff a chleifion a sicrhau na chaiff personél amhriodol eu cyflogi. Roedd gan holl staff y practis dystysgrifau llawn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)¹².

¹² Mae'r DBS yn galluogi sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas i waith penodol, yn enwedig gwaith sy'n ymwneud â phlant

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod holl staff y practis yn cael hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac oedolion cyn gynted â phosibl.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn y deintyddfeydd a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol i sicrhau diogelwch cleifion a staff a bod yr offer hwn mewn cyflwr da ac yn cael ei wasanaethu'n llawn. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus ac yn daclus hefyd ond gwelsom rai agweddau yr oedd angen eu gwella.

Mewn rhai deintyddfeydd, gwelsom fod angen selio o gwmpas y waliau, yr unedau llawr gosodedig a'r cadeiriau deintyddol. Roedd difrod sylweddol mewn un ddeintyddfa a oedd yn dangos sbwng mewnol clustog y gadair. Roedd hyn yn golygu nad oedd modd ei glanhau'n effeithiol a bod risg o groes-heintio. Dywedodd y deintydd wrthym eu bod yn gosod gorchudd plastig untro ar y glustog ar gyfer pob claf newydd.

Argymhellwn fod y glustog yn y ddeintyddfa berthnasol yn cael ei newid, ei thrwsio neu'i hailorchuddio. Argymhellwn fod yr ardaloedd perthnasol ym mhob deintyddfa yn cael eu selio.

Roedd yr holl offer radiograffeg mewn cyflwr da. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o staff clinigol ond un wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis wedi cynnal asesiadau risg ac archwiliadau rheolaidd i sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X ac roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith. Roedd cyfarwyddiadau i'w gweld wrth ymyl pob pwynt gweithredu pelydr-X, fel y nodir yn y polisi.

neu oedolion sy'n agored i niwed, ac yn rhoi mynediad ehangach i wybodaeth am gofnodion troseddol drwy ei wasanaeth datgelu ar gyfer Cymru a Lloegr.

Argymhellwn fod y deintydd sydd heb gael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf yn gwneud hynny cyn gynted â phosibl. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd inni ei bod eisoes wedi trafod y mater â'r deintydd dan sylw ac y bydd yn ceisio cwblhau'r hyfforddiant o fewn y pythefnos nesaf.

Ar y llawr cyntaf, mae ystafell bwrpasol ar gyfer peiriant sganio tomograffi gyfrifiadurol (CT), a ddefnyddir ar gyfer mewnbliadau. Gwnaethom nodi bod y prif swits pŵer a'r set law i reoli'r peiriant CT wedi'u lleoli ar y wal y tu allan, i'r chwith o'r ystafell. Roedd un o'r arolygwyr sy'n gyfarwydd â'r peiriant hwn wedi gallu troi'r peiriant CT ymlaen a'i weithredu (ond nid y broses sganio) y tu allan i'r ystafell drwy wasgu'r swits pŵer. Rydym yn teimlo bod y ffaith bod y swits a'r set law wedi'u lleoli y tu allan yn peri risg bosibl i ddiogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr, oherwydd gellir ymyrryd â'r rhain yn hawdd.

Argymhellwn fod blwch â chlo yn cael ei osod ar y wal er mwyn cynnwys y prif swits a'r set law a dylid cloi'r blwch pan nad yw'r peiriant CT yn cael ei ddefnyddio. Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd llafar inni y byddai'n trefnu hyn o fewn y 72 awr nesaf.

Yn ogystal, darparodd y practis dystiolaeth bod y cywasgydd wedi cael ei wasanaethu, ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y canlynol:

Bod deunydd selio yn cael ei osod o gwmpas waliau, gosodiadau a ffitiadau pob deintyddfa a bod pob deintyddfa'n cael ei harolygu a'i hasesu'n drylwyr mewn perthynas â hyn.

Bod y glustog sydd wedi'i difrodi yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn cael ei newid, ei thrwsio neu'i hailorchuddio.

Bod blwch â chlo yn cael ei osod ar y wal y tu allan i ystafell y sganiwr CT er mwyn cynnwys y prif swits a'r set law a dylid cloi'r blwch bob amser pan nad yw'r peiriant CT yn cael ei ddefnyddio.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau a/neu eu trefnu gan y practis, megis; rhagnodi gwrthfotigau, cofnodion clinigol,

croes-heintio, defnyddio pelydr-X a pheccynnau argyfwng. Yn ogystal, dywedwyd wrthym a gwelsom dystiolaeth fod tîm effeithiolrwydd clinigol corfforaethol Bupa yn cynnal archwiliadau o bell o gofnodion cleifion.

Gall yr holl staff ddefnyddio mewnwyd gorfforaethol Bupa Dental sy'n dangos y canllawiau diweddaraf, gan gynnwys canllawiau diweddaraf y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE), unrhyw rybuddion iechyd, a mentrau a datblygiadau a gallant adolygu sesiynau astudio, cyrsiau a chynadleddau niferus.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Wrth arolygu ffeiliau personol staff a thrafod â rhai aelodau o staff, gwelsom dystiolaeth bod y nyrsys deintyddol a'r staff gweinyddol yn cael arfarniadau blynyddol. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y deintyddion a'r hylenywyr wedi cael arfarniadau blynyddol ond roedd rheolwr y practis wedi cynnal cyfarfodydd unigol gyda phob deintydd yn ddiweddar i drafod ei rôl ac unrhyw bryderon a all fod ganddo. Roedd cofnodion ar gael o'r cyfarfodydd hyn ac roeddent wedi'u llofnodi. Nid arfarniadau blynyddol oedd y rhain.

Argymhellwn fod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn y practis yn cael arfarniad blynyddol er mwyn sicrhau bod lefelau cymhwysedd yn cael eu cynnal a bod anghenion hyfforddi yn cael eu nodi.

Nid oedd tystiolaeth chwaith i ddangos bod y timau clinigol yn cynnal adolygiadau cymheiriaid a allai, drwy eu cynnal, gyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Dyweddodd y practis wrthym nad yw'n defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth (MMD) Deoniaeth Cymru. Mae Adnodd Hunanwerthuso MMD yn adnodd datblygu practisau deintyddol syml sy'n galluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut mae'n gweithio. Mae defnyddio'r Matrics yn galluogi pawb yn y practis i feddwl am ansawdd y gofal a ddarperir mewn 12 maes neu 'ddimensiwn'. Mae'r dimensiynau'n cysylltu â phynciau craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac fe'u lluniwyd i godi ymwybyddiaeth o systemau ansawdd a diogelwch.

Argymhellwn fod y practis yn ystyried defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o systemau ansawdd a diogelwch ym mhob rhan o'r practis.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion bod y tîm yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac yn rhannu gwybodaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y canlynol:

Bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn y practis yn cael arfarniad blynyddol.

Bod y practis yn ystyried defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru, neu'n llunio dull a strategaeth fewnol ar gyfer y tîm, er mwyn codi ymwybyddiaeth o systemau ansawdd a diogelwch ym mhob rhan o'r practis.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth ar waith ac roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes llywodraethu gwybodaeth. Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio'n electronig ac mewn ffordd briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw o bob ffeil electronig yn rheolaidd ac roedd mynediad i sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn gudd. Roedd angen cyfrinair i ddefnyddio'r cyfrifiaduron hefyd.

Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth bod rhai o ddeintyddion a hylenywyr y practis yn cadw cofnodion clinigol da, sy'n dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon uchel, gan sicrhau diogelwch a lles deintyddol y cleifion. Gwelsom fod y cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth am drafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau, buddiannau a sut y gofynnwyd am gydsyniad cleifion. Roedd tystiolaeth hefyd i ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a bod y rhan fwyaf o gleifion yn cael cynlluniau triniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai problemau â threfniadau cadw cofnodion tri deintydd mewn perthynas ag amlder triniaethau radiograffeg a'r cyfiawnhad drostynt¹³, a allai effeithio ar gynlluniau gofal a thriniaeth ac opsiynau i ddiogelu iechyd a lles cleifion.

¹³ Cyfiawnhad dros ddefnyddio ymbelydredd ar gyfer delweddu meddygol (pelydrau-X) a thros ddefnyddio ymbelydredd er mwyn rhoi diagnosis a thrin clefydau deintyddol neu glefydau sy'n effeithio ar y geg.

Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â rheolwr y practis a dywedodd wrthym fod tîm cynghori clinigol corfforaethol Bupa wedi archwilio cofnodion cleifion yn union cyn ein harolygiad a bod y tîm hwnnw wedi nodi problemau â'r un deintyddion hefyd. Dywedodd wrthym fod y tîm cynghori clinigol wrthi'n gwneud cynlluniau i fynd i'r afael â'r mater ar unwaith gyda'r deintyddion dan sylw. Rhoddodd sicrwydd llafar inni hefyd y byddai'n rhoi gwybod inni pa gamau a gaiff eu cymryd mewn perthynas â'r deintyddion hyn, ar ôl i gynllun gael ei lunio.

Argymhellwn fod y practis yn cynnal archwiliad radiograffeg (pelydr-X) llawn mewn perthynas â'r holl ymarferwyr perthnasol sy'n cynnal triniaethau radiograffeg yn y practis ac y dylai'r deintyddion hefyd gynnal adolygiadau cymheiriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar gadw cofnodion, fel y nodir yn flaenorol yn yr adroddiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn:

Cynnal archwiliad radiograffeg llawn mewn perthynas â'r holl ymarferwyr sy'n cynnal triniaethau radiograffeg

Sicrhau bod y deintyddion yn cynnal adolygiadau cymheiriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar gadw cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, a gwelsom fod ganddi gydberthnasau da â phob aelod o staff. Mae gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir hefyd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis hwn yn cael ei redeg yn dda a bod ganddo ymrwymiad cryf i fanylder a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu rolau ac roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau'n fedrus. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth gan reolwr y practis a gwasanaethau corfforaethol Bupa i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Roedd systemau cyfathrebu da ar waith yn y practis a gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cadw a'u rhannu ag unrhyw un nad oedd yn bresennol. Gwelsom lofnodion staff i ddangos bod pob aelod o staff wedi darllen a deall y cofnodion.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd taflenni i'r staff eu llofnodi wedi'u hatodi wrth bob polisi er mwyn i'r staff ddangos eu bod wedi darllen a deall y polisi.

Roedd strwythurau rheoli da ar waith er budd y staff ond mae angen i reolwr y practis gyflwyno system o arfarniadau blynyddol ar gyfer pob aelod o staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae'r practis yn eiddo i Bupa Dental Care (Oasis Dental Care gynt) a chaiff ei reoli gan reolwr practis a gefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol ac anghlinigol. Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Roedd y ddau i'w gweld yn y practis.

Gwelsom fod tîm y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol iawn wrth ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion. Disgrifiodd pob aelod o dîm y practis linellau atebolrwydd ac adrodd clir. Lle y nodwyd meysydd i'w gwella gennym, gweithredodd rheolwr y practis neu'r brif nyrs ddeintyddol yn brydlon a gwnaethant ddangos parodrwydd ac ymrwymiad i ymdrin ag unrhyw faterion ac awgrymiadau.

Dywedodd y staff wrthym ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau gan bob aelod o dîm y practis. Nodwyd gennym fod y staff yn glir ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym fod systemau cyfathrebu da ar waith yn y practis a gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion yn cael eu cadw,

Gwelsom fod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Gwelsom fod yr holl bolisiau'n cael eu hadolygu a'u dyddio. Roedd tafenni i'r staff eu llofnodi wedi'u hatodi wrth bob polisi a chofnodion cyfarfodydd er mwyn iddynt gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall. Gwnaethom atgoffa rheolwr y practis bod yn rhaid adolygu a dyddio pob polisi bob tair blynedd neu'n gynt na hynny os cânt eu diwygio.

Gwnaethom nodi bod rhai polisiau'n cyfeirio at HTM 01-05 ac nid WHTM yn ogystal ag NHS England a'r Care Quality Commission (CQC) (sy'n rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr). Gwelsom hefyd fod gwefan y practis yn cyfeirio at NHS England a'r CQC mewn rhai manau. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis cyn ac yn ystod yr arolygiad ac fe wnaeth hi gydnabod hyn ei hun. Rhoddodd sicrwydd inni ei bod wedi codi hyn gyda thîm corfforaethol Bupa cyn ein harolygiad ac unwaith eto ar ddiwrnod yr arolygiad ond nid oedd ganddi'r awdurdod i orchymyn bod newidiadau'n cael eu gwneud i wefan cwmni Bupa ei hun.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom argymhell i reolwr y practis y dylid sicrhau bod holl bolisiau'r practis yn cael eu hadolygu'n ofalus ac y dylai unrhyw gyfeiriadau at NHS England, HTM neu CQC gael eu newid i NHS Wales/GIG Cymru, WHTM a HIW, fel y bo'n briodol, ar gopiâu caled y practis yn y ffeil polisiau.

Rhoddodd rheolwr y practis sicrwydd llafar inni y byddai'n gwneud trefniadau cyn gynted â phosibl i adolygu holl bolisiâu'r practis yn ofalus ac y byddai'n hysbysu AGIC hefyd yn syth ar ôl iddi gael cadarnhad bod y diwygiadau perthnasol wedi cael eu gwneud ar wefan y practis, fel yr argymhellwyd.

Roedd pob aelod o staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y canlynol:

Bod rheolwr y practis yn sicrhau bod pob polisi ym mhreactis Cas-gwent yn cael ei adolygu'n ofalus a'i bod yn newid unrhyw gyfeiriadau at NHS England, HTM neu CQC ar gopiâu caled y practis yn y ffeil polisiâu i NHS Wales/GIG Cymru, WHTM a HIW fel y bo'n briodol.

Rhaid i reolwr y practis hysbysu AGIC yn syth ar ôl iddi gael cadarnhad bod y diwygiadau perthnasol wedi cael eu gwneud (fel y bo'n briodol) ar wefan y practis.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom gydberthynas dda rhwng holl staff y practis a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd pob aelod o staff yn gwrtais ac yn groesawgar iawn i ddim AGIC.

Gwelsom fod gan y practis bolisiâu a rhaglenni recriwtio a sefydlu a bod rhestrau gwirio wedi'u cwblhau ar gyfer y recriwtiaid mwyaf diweddar. Gwelsom hefyd fod pob un ond un aelod o staff hirdymor wedi llofnodi contract cyflogaeth a bod geirdaon ar gael ar eu cyfer.

Mae rheolwr y practis wrthi'n cynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y nyrsys deintyddol a'r staff anghlinigol, ond nid oes proses ffurfiol ar gael i gynnal arfarniadau blynyddol ar gyfer y deintyddion a'r hylenywyr. Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, argymhellwn fod y practis yn mabwysiadu rhaglen flynyddol o arfarniadau ffurfiol ar gyfer pob aelod o staff.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau a'u bod, felly, yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sy'n berthnasol i'w rôl.

Fodd bynnag, fel y trafodwyd eisoes, nid oedd gan bob aelod o staff dystysgrif gyfredol mewn perthynas â hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion, nid oedd gan bedwar ohonynt dystiolaeth i ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau, nid oedd un aelod o staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio, ac roedd angen hyfforddiant gloywi ar y ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cefnogaeth ac anogaeth gan reolwr y practis a gwasanaethau corfforaethol Bupa i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Gwnaethom argymhell bod rheolwr y practis yn defnyddio matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod cofnod cyffredinol o hyfforddiant staff ar gael i'w weld yn hawdd. Byddai hyn hefyd yn helpu i sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant hanfodol yn cael ei chynnal mewn modd amserol a nodi a oes angen hyfforddiant cyn iddo ddod i ben. Cytunodd rheolwr y practis y byddai hynny'n fuddiol a rhoddodd sicrwydd llafar inni y byddai'n rhoi proses ar waith i wneud hyn.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cadeirio gan reolwr y practis a chedwir cofnodion o'r cyfarfodydd hyn.

Mae'n rhaid i'r holl staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint feirydol. Darparodd y practis dystiolaeth o statws imiwnedd pob aelod ond un o'r staff clinigol. Gwnaethom godi'r ffaith nad oedd gan yr unigolyn statws imiwnedd boddhaol yn dilyn brechiadau gyda'r aelod o staff dan sylw a rheolwr y practis. Cawsom wybod ei fod wedi cael brechiad atgyfnerthu yn dilyn y canlyniad hwnnw ond nad oedd wedi cael prawf gwaed i wirio imiwnedd ar ôl y pigiad atgyfnerthu.

Gwnaethom argymhell bod yr unigolyn yn cysylltu ag adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd er mwyn trefnu prawf gwaed i wirio ei imiwnedd, cyn gynted â phosibl. Rhoddodd yr unigolyn sicrwydd llafar inni y byddai'n cysylltu â'r adran y diwrnod canlynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Argymhellwn y canlynol:

Bod yr unigolyn y mae angen tystiolaeth o'i imiwnedd yn erbyn Hepatitis B ar ôl y brechiad atgyfnerthu, yn cysylltu ag adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd er mwyn trefnu prawf gwaed i wirio ei imiwnedd.

Bod matrices hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod cofnod o

hyfforddiant staff ar gael yn hawdd er mwyn cadarnhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant hanfodol yn cael ei chynnal a nodi a oes angen hyfforddiant cyn iddo ddod i ben.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod bag gwastraff clinigol wedi ei adael ar lawr deintyddfa ar y llawr daear.	Nid oedd y bag gwastraff clinigol wedi cael ei storio mewn cynhwysydd, fel bin a agorir gan droed. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff fod yn wynebu risg wrth gyffwrdd â'r bag. Roedd yn bosibl hefyd i hylifau/deunydd gwastraff ddod allan o'r bag a mynd ar y llawr.	Codwyd hyn yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'r brif nyrs ddeintyddol yn ystod yr arolygiad.	Aeth y brif nyrs ddeintyddol i ymchwilio a symudodd y bag gwastraff clinigol yn syth gan ei osod yn y sgip gwastraff clinigol allanol.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Chepstow

Dyddiad arolygu: 18 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Chepstow

Dyddiad arolygu: 18 Gorffennaf 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r practis ddarparu amrywiaeth o daflenni i hyrwyddo hylendid ac iechyd y geg, fel y gall cleifion eu darllen a mynd â nhw adref gyda nhw	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Ar 11/09/2018 archebais daflenni gwybodaeth i gleifion drwy ein Hadnodd Marchnata. Archebais daflenni i egluro Triniaeth Sianel y Gwreiddyn, Coronau, Llenwadau a Mewnblaniadau i'n cleifion gan mai'r rhain yw'r triniaethau mwyaf cyffredin a gynhelir yn y practis.	Gillian Wright	11/9/2018
Dylai'r practis wneud y canlynol: Gosod sgrin breifatrwydd farugog ar wydr y ffenestri hyd llawn ar bob drws yn y ddwy	4.1 Gofal Gydag Urddas	Mae cynllun i adnewyddu Deintyddfa 1 yn llawn newydd gael ei gymeradwyo a bydd y sgrin yn cael ei hychwanegu at y cynllun hwn. Mae'r ddeintyddfa wedi	Gillian Wright	Gwnaed cais am wariant cyfalaf ar

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ddeintyddfa ar y llawr daear.</p> <p>Gosod sgrin breifatrwydd wrth y fynedfa i'r ystafell stoc, yn y ddeintyddfa ar y llawr daear.</p>		<p>cael ei hasesu ond nid ydym wedi cael dyfynbris eto. Fodd bynnag, bydd hyn yn digwydd o fewn y tri mis nesaf. Caiff y ffenestri barugog a argymhellwyd ar gyfer Deintyddfa 1 a Deintyddfa 2 eu gosod ar 28/9/2018.</p>		17/9/2018
<p>Dylai'r practis wneud y canlynol:</p> <p>Cynnwys rhagor o wybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis am enwau pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol a'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chelfion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff.</p> <p>Gosod arwydd clir ar ddrws yr ystafell ddadhalogi, er enghraifft, 'Staff yn Unig'.</p> <p>Sicrhau bod enwau a manylion pob deintydd sy'n gweithio yn y practis yn cael eu harddangos y tu allan.</p>	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	<p>Mae disgwyl i'r gwaith adnewyddu allanol gael ei gyflawni ar 28/9/2018 pan gaiff enw pob deintydd ei restru y tu allan.</p> <p>Mae gennym boster wrth y fynedfa yn barod sy'n dangos ein polisi Trais yn y gweithle.</p> <p>Rwyf eisoes wedi rhoi arwydd Staff yn Unig mewn man amlwg ar ddrws yr ystafell ddadhalogi.</p> <p>Rwyf wedi archebu taflenni newydd ar gyfer y Practis heddiw sydd wedi hepgor Llonyddu o'r rhestr o driniaethau a ddarperir gennym.</p> <p>Rwyf wedi e-bostio'r Adran Farchnata ynghylch cynnwys y polisi Trais yn y Gweithle ac enwau'r deintyddion yn ein</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>28/9/2018</p> <p>1/8/2018</p> <p>1/8/2018</p> <p>11/9/2018</p> <p>17/9/2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		taflenni gan nad yw'n bosibl gwneud hyn ar ein system ar-lein a byddaf yn hysbysu AGIC am yr ymateb.		
Tynnu pob deunydd sy'n rhoi gwybodaeth am yr opsiwn i lonyddu cleifion o ardal aros y practis, y taflenni gwybodaeth i gleifion a'r wefan, er mwyn osgoi camarwain cleifion.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Tynnwyd ar 18/7/2018.	Gillian Wright	18/7/2018
Dylai'r cyngor ar barcio i gleifion gael ei ddiwygio ar wefan y practis os yw'r maes parcio at ddefnydd staff yn unig neu, os yw'r maes parcio at ddefnydd cleifion hefyd, dylai'r staff hysbysu'r cleifion a chaniatáu iddynt ddefnyddio'r maes parcio a dylid gosod arwyddion priodol yn y ddau achos.	6.2 Hawliau pobl	Maes parcio i gleifion yw hwn ac mae'n rhaid bod rhyw gamdealltwriaeth wedi digwydd ar ddiwrnod yr archwiliad. Gall y staff barcio yma ond dim ond os ydynt yn gweithio tan 7.15 yr hwyr.	Gillian Wright	18/7/2018
Cadw cofnod canolog, ffurfiol o bob cwyn lafar er mwyn sicrhau y gall aelodau eraill o staff eu gweld fel y bo'n briodol.	6.3 Gwrando a Dysgu o'r adborth	Mae llyfr adborth gan gleifion wedi'i osod yn dderbynfa er mwyn monitro unrhyw sylwadau llafar a wneir, yna gallwn eu trafod yn ein cyfarfod misol.	Gillian Wright	10/9/2018

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol;</p> <p>Bod proses ar waith i sicrhau bod unrhyw staff dros dro yn gwbl gyfarwydd â'r adeilad a'r polisi a'r weithdrefn ar gyfer rheoli gwastraff clinigol.</p> <p>Dylai bin gwaredu deunyddiau misglwyf gael ei osod yn y toiled i staff ar y llawr cyntaf.</p> <p>Dylai pob bin offer miniog gael ei osod yn sownd wrth wal neu'i storio'n ddiogel mewn crud neu stand.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Rwyf eisoes wedi gosod bin gwaredu deunyddiau misgwyl yn yr ystafell staff ar y llawr cyntaf.</p> <p>Mae staff asiantaeth yn cael hyfforddiant sefydlu cyn i'w sesiwn ddechrau fel arfer. Gwnaethom anghofio gwneud hyn ar ddiwrnod yr archwiliad.</p> <p>Archebwyd y bin ar ddiwrnod yr Archwiliad a chafodd ei ddsbarthu o fewn wythnos</p> <p>Mae fframiau wal i ddal biniau offer miniog wedi cyrraedd y practis a chânt eu gosod cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>30/8/2018</p> <p>18/7/2018</p> <p>25/7/2018</p> <p>28/9/2018</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol;</p> <p>Bod offerynnau sydd wedi'u sterileiddio'n cael eu gorchuddio â lliain sterilaid neu fod dull priodol arall yn cael ei ddefnyddio (i gadw offerynnau'n sterilaid), yn ystod y cam oeri.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi</p>	<p>Gwnaethom newid y ffordd rydym yn prosesu offerynnau ar ddiwrnod yr archwiliad, ar ôl trafod hyn yn fanwl.</p> <p>Rydym nawr yn defnyddio Pecyn</p>	<p>Gillian Wright</p>	<p>19/7/2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Gan nad oes awtoclaf gwactod ar gael, dylai'r offerynnau a ddefnyddir ar gyfer mewnbaniadau gael eu sterileiddio eto yn union cyn iddynt gael eu defnyddio.</p> <p>Dylai pob aelod o staff clinigol gael hyfforddiant rheoli heintiau</p>		<p>Mewnbaniad Awtoclaf yn union cyn y sesiwn.</p> <p>Mae pob aelod o staff wedi cwblhau Hyfforddiant Rheoli Heintiau. Rydym wedi mynd ar drywydd un clinigydd gan fod ei hyfforddiant wedi darhod 17/9/2018.</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>19/7/2018</p> <p>21/9/2018</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol;</p> <p>Bod y polisi ar reoli argyfyngau meddygol yn cael ei ddiweddarau i gynnwys rolau a chyfrifoldebau unigol y practis yn ystod argyfwng.</p> <p>Dylai'r ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig gael hyfforddiant gloywi ym maes cymorth cyntaf.</p> <p>Sicrhau bod pob aelod o staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol drwy Gynllun Cerdyn Melyn MHRA.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Rydym wedi trafod y rolau sy'n berthnasol i argyfwng yn ein cyfarfod diwethaf ac mae'r rolau wedi'u pennu.</p> <p>Cwblhaodd y ddau aelod o staff gwrs Cymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle ar 20/7/2018.</p> <p>Rydym nawr yn deall i bwy y dylem roi gwybod am unrhyw adweithiau niweidiol.</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>20/7/2018</p> <p>20/7/18</p> <p>20/7/18</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Mae'r holl staff wedi cael hyfforddiant llawn.	Gillian Wright	19/7/2018
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol;</p> <p>Bod ymylon y llawr ym mhob deintyddfa yn cael eu selio, yn ogystal â'r ffitiadau a'r gosodiadau, a'u bod yn cael eu harolygu'n llawn a'u selio os nad ydynt wedi'u selio'n barod.</p> <p>Bod y glustog sydd wedi'i difrodi yn y ddeintyddfa ar y llawr gwaelod yn cael ei newid, ei thrwsio neu'i hailorchuddio.</p> <p>Rhaid i'r deintydd y mae ei hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio wedi dyddio, gwblhau hyfforddiant.</p> <p>Bod blwch â chlo yn cael ei osod ar y wal er mwyn cynnwys y prif swits a'r set law ar gyfer y</p>	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	<p>Cafodd y llawr yn Neintyddfa 1 ei selio ar 24/7/2018. Dyma'r unig ddeintyddfa nad oedd wedi'i selio.</p> <p>Bydd y glustog yn cael ei hailorchuddio fel rhan o raglen adnewyddu'r ddeintyddfa o fewn y 3 mis nesaf. Mae'n dal i gael ei defnyddio a chaiff gorchuddion untro eu defnyddio ar gyfer pob claf.</p> <p>Mae'r deintydd bellach wedi gadael y cwmni.</p> <p>Mae'r uned bellach wedi'i selio ac mae blwch metel â chlo wedi'i osod.</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>24/7/2018</p> <p>19/7/2018</p> <p>10/8/2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
sganiwr CT a dylid cloi'r blwch pan nad yw'r peiriant CT yn cael ei ddefnyddio.				
<p>Rhaid i'r practis sicrhau'r canlynol;</p> <p>Bod proses yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn y practis yn cael arfarniad blynyddol.</p> <p>Ystyried defnyddio adnodd Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth Deoniaeth Cymru, neu'n llunio dull a strategaeth fewnol ar gyfer y tîm, er mwyn codi ymwybyddiaeth o systemau ansawdd a diogelwch ym mhob rhan o'r practis.</p>	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd	<p>Mae ein staff cyflogedig bob amser wedi cael arfarniadau blynyddol. Eleni, bydd ein deintyddion yn cael arfarniad hefyd.</p> <p>Byddwn yn ystyried defnyddio'r adnodd hwn ymhellach. Rwyf wedi e-bostio'r ddolen at y Tîm Clinigol heddiw a byddwn yn trafod y mater yn y cyfarfod staff nesaf ar 3/10/2018</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>19/7/2018</p> <p>17/9/2018</p>
<p>Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:</p> <p>Cynnal archwiliad radiograffeg llawn mewn perthynas â'r holl ymarferwyr perthnasol sy'n cynnal triniaethau radiograffeg yn y practis</p> <p>Sicrhau bod y deintyddion yn cynnal</p>	3.5 Cadw cofnodion	<p>Mae Bupa yn darparu adnodd archwilio mewnol er mwyn monitro archwiliadau radiograffeg. Gwnaethom ddangos tystiolaeth o hyn i'r archwilwyr ar y diwrnod.</p> <p>Mae'r holl staff clinigol wedi cael archwiliad mewn perthynas â'u sgiliau cadw nodiadau ac wedi cael adolygiad</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>18/7/2018</p> <p>26/7/2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
adolygiadau cymheiriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar gadw cofnodion.		sy'n nodi argymhellion i'r dyfodol. Gwnaethom hefyd newid ein templedi er mwyn dangos gwybodaeth benodol a argymhellwyd ar ddiwrnod yr archwiliad.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod pob polisi ym mhactis Cas-gwent yn cael ei adolygu'n ofalus a bod unrhyw gyfeiriadau at NHS England, HTM neu CQC ar gopïau caled y practis yn y ffeil polisïau yn cael eu newid i NHS Wales, WHTM a HIW (lle bo hynny'n briodol).</p> <p>Bod AGIC yn cael ei hysbysu'n syth ar ôl cael cadarnhad bod y diwygiadau perthnasol wedi cael eu gwneud ar wefan y practis.</p>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Mae hyn yn digwydd yn barhaus pan fydd angen diweddarau'r polisi.</p> <p>Ar droednodyn y wefan, rydym wedi dileu'r gair Lloegr o logo NHS England er mwyn cwmpasu pob ardal. Mewn achosion lle caiff practisau eu monitro gan AGIC, rydym yn rhoi manylion ar y dudalen About us. Byddwn yn cadarnhau hyn cyn gynted ag y bydd ein Tîm Marchnata yn ei weithredu.</p>	<p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p> <p>Gillian Wright</p>	<p>17/9/2018</p> <p>17/9/2018</p> <p>28/9/2018</p>
<p>Rhaid i reolwr y practis sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod yr unigolyn y mae angen tystiolaeth o'i imiwnedd yn erbyn Hepatitis B, yn cysylltu ag adran iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd er</p>	7.1 Gweithlu	Mae'r wybodaeth hon bellach ar ffeil yn y practis.	Gillian Wright	17/9/2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>mwyn trefnu prawf gwaed.</p> <p>Bod matrices hyfforddiant yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod cofnod o hyfforddiant staff ar gael yn hawdd er mwyn helpu i gadarnhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant hanfodol a nodi anghenion hyfforddi cyn i unrhyw hyfforddiant ddod i ben.</p>		Mae gennym nawr Galendr Hyfforddiant Staff yn y practis ac rwyf yn monitro'r Calendr hwn yn agos ac yn hysbysu'r staff am unrhyw anghenion hyfforddiant.	Gillian Wright	19/7/2018

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad:17/9/2018